

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **11 Ionawr 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

Cymerwyd y weddi gan Cyng. Elizabeth George

1-01/16: Presennol

Cadeirydd Cyng. W A Evans

Is-Gadeirydd Cyng. R Cadwalader

Cyng. Wayne Roberts

Cyng. Sian Williams

Cyng. Liz Regan

Cyng. Dr E Tudor Jones

Cyng. R T Price

Cyng. Henry Jones

Cyng. Eirwyn Jones

Cyng. Phil Jones

Cyng. Dafydd Lloyd

Cyng. Elizabeth George

2-01/16: Ymddiheuriadau

Dim.

3-01/16: Datgan diddordeb

Dim.

4-01/16: Cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr

Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

5-01/16: Materion yn codi trwy ohebiaeth

- a. Par. Eitem 18-12/15 (Cofnodion Rhagfyr 2015) – Cydnabyddiaeth i'r cyn-glerc
Adroddwyd nad oedd hawl gan y Cyngor i wneud cydnabyddiaethau ariannol. Penderfynwyd i gyflwyno'r cyn-glerc â 'fountain pen' (ysgrifbin) i'w ddewis gan y Cadeirydd ac i'w dalu o gyfrif y Cadeirydd.
- b. Par. Eitem 14-12/15 (Cofnodion Rhagfyr 2015) – Cofeb y French Commandos
Derbyniwyd wahoddiad ar gyfer y seremoni dad-orchuddio ar 18 Mehefin 2016.
Penderfyniad: i enwebu Cyng. Robert Price fel cynrychiolydd swyddogol y Cyngor yn y seremoni. I argymhell bod y trefnydd yn nodi addasrwydd gwesty Caerwylan fel lleoliad cyfleus i ddarpar-gynrychiolwyr.
- c. Mainc: Nodwyd bod mainc newydd bellach wedi ei osod ar lwybr y Dryll a bod y gwneuthuriad o ansawdd uchel.
Penderfyniad: I ysgrifennu at Mr & Mrs Galbraith i ddiolch yn fawr iddynt am eu rhodd hael.

6-01/16: Goleuadau Nadolig

Adroddwyd bod yna ddifrod sylweddol wedi ei wneud i'r goleuadau yn ystod y tywydd garw. Dengys yr archwiliad cychwynnol gan y trydanwr bod angen uwchraddio blwch trydanol y goeden Nadolig ar y maes; hefyd, mae'r prif flwch trydanol mewn cyflwr gwael a bydd angen un newydd, a bydd angen bylbiau newydd. Awgrymodd Cyng. Robert Cadwalder y dylid canolbwyntio ar wella a thrwsio'r goleuadau ar gyfer Nadolig

2016 yn hytrach nag ychwanegu i'r hyn oedd ar gael yn barod, ac i newid gosodiad y goleuadau polyn ychydig.

Penderfyniad: i dderbyn adroddiad y clerc ac awgrymiadau'r aelod ac i ofyn i'r trydanwr i wneud archwiliad llawn ac i gyflwyno amcanbris ar gyfer y gwaith.

7-01/16: Grantiau

Cyflwynwyd adroddiad gan y clerc a oedd yn amlinellu y math o grantiau oedd ar gael ac enghreifftiau o'r prif gronfeydd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y cronfeydd yma yn disgwyl bod ceisiadau grant wedi eu selio ar gynlluniau gweithredu ac ymgynghoriadau gyda thrigolion a sefydliadau yn y gymuned. Tanlinellwyd y manteision o lunio cynlluniau gweithredu cymunedol rheolaidd fel ffordd i sefydlu blaenoriaethau'r dref a'i thrigolion ac, ar sail hyn, i geisio ymateb i unrhyw newidiadau a ddaw yn sgîl arbedion llywodraeth leol.

Penderfyniad: i drefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor grantiau er mwyn llunio rhestr o sefydliadau yn y dref ac i'w gwahodd i fod yn rhan o grŵp llywio.

8-01/16: Datblygiad ar y darn o dir gyferbyn â Gwesty'r George

Ar ôl trafodaeth, amlygwyd dau brif bryder:

1. Y maes parcio – roedd yna bryder y byddai rhoi mynediad i'r archfarchnad o'r maes parcio yn gosod cynsail a byddai hyn yn sbarduno ceisiadau eraill am fynediad gan fusnesau eraill. Nodwyd y gall y sefyllfa greu anhegwch - byddai ymwelwyr â'r archfarchnad yn cael parcio am ddim, tra byddai'n rhaid i siopwyr eraill ac ymwelwyr â'r dref dalu am barcio yn y rhan arall o'r maes parcio.
2. Yr ardal gadwraeth – nodwyd bod y tir o fewn yr ardal gadwraeth a thu allan i'r cynllun datblygu. Roedd cyflwr yr ardd yn peri pryder a theimlwyd ei fod wedi cael ei hesgeluso, yn groes felly i'r ddeddf gadwraeth, a oedd hefyd yn ei gwneud yn ofynol bod mannau agored a golygfeydd yn cael eu gwarchod.

Pleidlais: 6 yn gwrthwynebu'r cynlluniau; 6 yn ymatal eu pleidlais.

Penderfyniad: i ddanfôn sylwadau manwl i'r Cyngor Sir parthed y pryderon uchod.

9-01/16: Gwobrau Traeth 2016

Derbyniwyd lythyr gan Wasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig y Cyngor Sir yn datgan ei fod yn debygol na fydd y gwasanaeth yn medru ariannu'r gost o wneud ceisiadau ar gyfer Gwobrau Traeth 2016 (baner las a'r wobwr traeth gwledig) ac yn gofyn felly i'r Cyngor Tref i gyfrannu'n llawn at gost y ddau gais. Cyfanswm = £1,044.

Roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd adrannau eraill o fewn y Cyngor Sir yn cysylltu â'r Cyngor Tref gyda cheisiadau tebyg maes o law, ac felly oherwydd yr ansicrwydd presennol o ran beth fydd gofynion ariannol llawn y Cyngor Sir, roedd yr aelodau yn teimlo nad oedd y Cyngor Tref mewn sefyllfa ar hyn o bryd i allu cyfrannu i'r math yma o gais.

Penderfyniad: I ysgrifennu i'r Cyngor Sir yn ei hysbysu na fydd y Cyngor Tref yn medru cyfrannu tuag at y gost, ac yn amlinellu'r rhesymau.

10-01/16: Polisi iaith y Cyngor Tref

Derbyniwyd galwad gan swyddfa Liz Savile Roberts, A.S., yn adrodd bod un o drigolion Criccieth wedi cwyno am yr aneglurder o ran y polisi iaith ar safle we y Cyngor Tref – yn bennaf parthed cyfrwng iaith y cofndion a'r rhaglenni a gyflwynir yno.

Yn dilyn achos yn ymwneud â chyngor cymuned arall yng Nghymru a dderbyniwyd cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yn ddiweddar, awgrymodd y clerc y dylid amlinellu'r polisi iaith ar y safle we, ac i egluro bod croeso i unigolion sydd angen fersiwn Saesneg gysylltu â'r clerc er mwyn derbyn eglurder neu grynoded o'r hyn a drafodwyd mewn cyfarfod. Awgrymwyd hefyd y dylid cryfhau polisi iaith y Cyngor trwy gynnwys yr eglurhad yma yn y ddogfen.

Penderfyniad: I dderbyn a gweithredu awgrymiad y clerc.

11-01/16: Derbyniadau

Dim derbyniadau i law.

12-01/16: Taliadau

- | | |
|------------------------------------|-----------|
| • Goleuadau Nadolig (RJ Electrics) | £4,088.74 |
| • Cyllid y Wlad (PAYE) | £ 76.60 |

13-01/16: Ceisiadau Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen, ac sydd angen sylwadau erbyn 27 Ionawr 2016:

Cais C15/1373/35/LL

Addasu adeilad allanol yn uned gwyliau – Brynhir Arms, 24 Stryd Fawr, Criccieth.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Cais C15/1384/35/LL

Addasiadau mewnol ac allanol i addasu adeiladau allanol yn dy annedd ac un uned gwyliau – Brynhir Arms, 24 Stryd Fawr, Criccieth.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 8 Chwefror 2016**

**** Bydd y rhaglen yma yn cau 1 Chwefror 2016 ****
